LGBC10M/2001

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 1.00 pm DDYDD MERCHER 21ain TACHWEDD 2001 YN NHŶCARADOG, 1-6 ST. ANDREWS PLACE, CAERDYDD CF10 3BE

Yn bresennol:

Comisiwn	**Ysgrifenyddiaeth**
Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)	Mr E Lewis (Ysgrifennydd)
Mr E F L FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd)	Mr S Halsall
Mrs S Smith (Aelod)	Mr D Carr
	Gwesteion
	Mr J E Davies
	Mr D Roberts

Croesawodd y Cadeirydd Mr Davies a Mr Roberts a fydd yn cychwyn ar eu gwaith fel Comisiynwyr ar 1af Ionawr 2002.

1. Cofnodion y Cyfarfod a Gynhaliwyd ar 4ydd Hydref 2001

1.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Hydref 2001 yn amodol ar fân newidiadau.

2. Materion sy'n Codi

2.1 Nododd yr Ysgrifennydd na dderbyniwyd unrhyw ymateb gan Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, o ran cais y Comisiwn iddynt gael eu cyfarwyddo i gynnal arolwg o ffiniau'r Siroedd a Gadwyd. Deellir yr ymgynghorir â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y mater hwn cyn gwneud penderfyniad. Holodd y Cadeirydd a ellid ymestyn y dyddiad cau o fis Rhagfyr 2002 ar gyfer cwblhau arolwg o'r siroedd a gadwyd a awgrymwyd ar gais y Comisiwn, pe bai'r oedi'n achosi problemau. Atebodd yr Ysgrifennydd y gallai'r Comisiwn Ffiniau i Gymru drefnu eu harolwg o'r etholaethau seneddol o amgylch yr arolwg o'r siroedd a gadwyd pe bai angen.

2.2 Nododd yr Ysgrifennydd ei fod wedi ysgrifennu at Fwrdd yr Iaith Gymraeg i wneud cais am gyngor ar wefan y Comisiwn. Cafwyd ymateb nad oeddent wedi llunio unrhyw ganllawiau fel y cyfryw ac felly na allai'r Comisiwn ddisgwyl unrhyw gymorth tymor byr ganddynt. Awgrymodd Mr Halsall mai un dewis amgen posibl fyddai i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnal gwefan y Comisiwn. Yna gallai'r Cynulliad gynnwys gofynion Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn y wefan.

2.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Gadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth am baratoi a chyflwyno tystiolaeth i'r Comisiwn Trefniadau Etholiadol a

Llywodraeth Leol i Gymru (CELGAW). Nododd yr Ysgrifennydd ei fod hefyd wedi anfon nodyn atodol i CELGAW ar ôl y cyfarfod.

3. Arolwg o'r Ffin Rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn Ardal Cymuned Clunderwen – Drafft o'r Adroddiad ar y Cynigion Terfynol.

3.1 Nododd Mr Halsall fod y Cynigion Terfynol wedi eu drafftio yn unol â'r penderfyniad a wnaeth y Comisiwn yn y cyfarfod diwethaf. Anfonwyd y drafft o'r Cynigion Terfynol at Roland Phillips o Adran Cyfreithiwr y Trysorlys a oedd wedi codi dau bwynt bach. Cyfeiriodd paragraff 7.6 at y newid arfaethedig i'r ffin rhwng Clunderwen a Chilymaenllwyd ond ni roddodd unrhyw reswm dros wneud hyn.

3.2 Awgrymodd yr Ysgrifennydd y gellid cynnwys brawddeg ychwanegol yn yr adroddiad yn cyfeirio at yr ymdeimlad o gymuned yn ardal y newid arfaethedig i'r ffin yn esbonio hefyd y byddai'r ffin yn well yn sgîl y newid arfaethedig.

3.3 **Cytunwyd** y byddai'r Cadeirydd yn ystyried yr adroddiad ymhellach ac yn hysbysu'r Ysgrifenyddiaeth am unrhyw addasiadau y byddai'n dymuno eu gwneud. Yna gellid anfon yr adroddiad at y cyfieithwyr a'i gyhoeddi.

4. Arolwg o'r Ffin Rhwng Sir Geredigion a Sir Benfro yn Ardal Cymuned Llandudoch – Ail Ddrafft yr Adroddiad ar y Cynigion Terfynol.

4.1 Nododd Mr Halsall fod ail ddrafft yr adroddiad ar y Cynigion Terfynol yn cynnwys yr un cynigion â'r drafft cyntaf ond bod ei gynnwys wedi ei addasu i ystyried y camgymeriad wrth gyfrifo incwm y Grant Cynnal Refeniw a'r cynnydd yn y dreth gyngor ar gyfer Cyngor Sir Geredigion a wnaed gan Rita Hale & Associates Ltd. yn eu hadroddiad i'r Comisiwn. Cafodd manylion y camgymeriad hwn a chyfrifiadau diwygiedig eu cynnwys yn ail ddrafft yr adroddiad. Fodd bynnag, nid ystyriwyd bod effaith cywiro'r camgymeriadau hyn ar gasgliad cyffredinol y Comisiwn yn un sylweddol oherwydd nifer fach y cartrefi a gymerodd ran yn yr arolwg. Ystyriodd y Comisiwn y dylai eu cynnig i uno pentref Llandudoch yn Sir Benfro barhau.

4.2 Dywedodd Mr Halsall fod yr adroddiad wedi ei anfon at Roland Phillips a bod ei sylwadau wedi'u hymgorffori. **Cytunwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei gyfieithu a'i gyhoeddi.

5. Arolwg o'r Ffin Rhwng Bwrdeistref Sirol Casnewydd a Bwrdeistref Sirol Tor-faen – Crynodeb o'r Sylwadau a Dderbyniwyd mewn Ymateb i'r Cynigion Drafft.

5.1 Ystyriodd y Comisiwn y sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r Adroddiad ar y Cynigion Drafft. Nodwyd bod barn gref yn erbyn cynnig y Comisiwn i adlinio'r ffin ar hyd ffordd osgoi Malpas. Roedd y rhain yn cynnwys y ddau Gyngor Bwrdeistref Sirol, yr AS ac Aelodau'r Cynulliad ar gyfer etholaethau lleol.

5.2 Teimlai'r Comisiwn fod sylwadau a wnaed o ran ceisiadau posibl ar gyfer cynllunio yn y dyfodol yn amherthnasol oherwydd dylai'r rheolau sy'n rheoli caniatâd cynllunio ar gyfer ardal yr arolwg barhau heb gael eu newid waeth pa gyngor bwrdeistref sirol yr oedd ynddo. Roeddent hefyd yn tueddu i gredu bod ffordd osgoi Malpas yn gwneud ffin well na'r un bresennol sy'n dilyn y nant. Fodd bynnag, o ystyried cryfder y gwrthwynebiad i'r cynnig gan y ddau brif awdurdod, cynrychiolwyr etholedig yr ardal a thrigolion lleol, teimlodd y Comisiwn na fyddai newid y ffin er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

5.3 **Cytunwyd** y dylid drafftio'r Cynigion Terfynol gan argymell na ddylid newid y ffin bresennol.

6. Arolwg o'r Ffin Rhwng Dinas a Sir Caerdydd a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg – Crynodeb o'r Sylwadau.

6.1 Ystyriodd y Comisiwn y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r mân newid a gynigiwyd i'r ffin rhwng Caerdydd a Bro Morgannwg. Nododd Mr Halsall y bu'r arolwg hwn yn annadleuol ac na chafwyd unrhyw wrthwynebiad i gynigion y Comisiwn. Roedd Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg wedi cefnogi'r addasiad i'r ffin a gynigiwyd gan y Comisiwn.

6.2 **Cytunwyd** y byddai'r adroddiad ar y Cynigion Terfynol yn argymell adlinio'r ffin bresennol i ddilyn yr afon.

7. Arolwg o Ffiniau Cymuned Llanbadarn Fynydd, Powys – Adroddiad o'r Ymweliad Safle.

7.1 Nododd Mr Halsall ei fod wedi llunio addasiadau posibl i rannau o ffin Cymuned Llanbadarn Fynydd mewn ymateb i arolwg o'r gymuned gan Gyngor Sir Powys. Cynhaliodd yr Ysgrifenyddiaeth ymweliad safle â'r ardal, ynghyd â'r Arolwg Ordnans, er mwyn archwilio'r adliniadau posibl hyn i ffiniau'r gymuned y gwelwyd eu bod yn amlwg ar y tir. Gan na fu ymgynghori ar y cynigion penodol, **cytunwyd** y dylid cyflwyno'r cynigion i'r Cynghorau Sir a Chymuned a'r trigolion dan sylw.

8. Cytundeb Cyflog Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

8.1 Trafodaeth gudd.

9. Adroddiad ar Gyllideb Hanner Blwyddyn 2001/02.

9.1 Nododd Mr Carr fod gwariant y Comisiwn ymhell o fewn y gyllideb ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn ariannol, gyda thanwariant o £24,000. Ni fyddai'r newidiadau y cytunwyd arnynt i system TG y Comisiwn mewn cydweithrediad â'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael unrhyw effaith ar gyllideb y Comisiwn.

10. Ceisiadau am Arolygon.

10.1 Nododd yr Ysgrifennydd fod gohebiaeth wedi ei derbyn gan un unigolyn ynghylch trefniadau llywodraeth leol yn ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili. Cododd yr ohebiaeth bryderon ynghylch safon y gwasanaeth a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ymysg materion eraill, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt y tu allan i gylch gwaith y Comisiwn. Fodd bynnag, cododd yr ohebiaeth hefyd faterion ynghylch adlinio sawl ardal llywodraeth leol. Roedd yr unigolyn hefyd wedi ysgrifennu at Edwina Hart AC a oedd wedi gofyn am farn y Comisiwn ar y mater. Ystyriodd y Comisiwn y byddai'n angenrheidiol canfod faint o gefnogaeth oedd i gynigion yr unigolyn. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at yr unigolyn i ofyn am ragor o wybodaeth am lefel y gefnogaeth i'w chynigion. Pe bai'r wybodaeth yn cael ei hanfon byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ofyn am eu barn ar y mater. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at Edwina Hart AC i'w hysbysu o'r camau a gymerwyd.

10.1 Hefyd derbyniwyd cais am arolwg o'r ffin rhwng Casnewydd a Sir Fynwy. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at yr unigolyn i wneud cais am ragor o wybodaeth ynghylch lefel y gefnogaeth i'w awgrym.

11. Unrhyw Fater Arall.

11.1 Tynnodd yr Ysgrifennydd sylw'r Comisiwn at Wyliau Cyhoeddus a Braint y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cyfnod y Nadolig sef 24ain, 25ain a 26ain Rhagfyr 2001. Hefyd gofynnodd am ganiatâd i gau swyddfeydd y Comisiwn ar 27ain a 28ain Rhagfyr 2001 oherwydd y nifer isel o staff a oedd ar gael gan fod holl aelodau'r staff wedi gwneud cais am wyliau blynyddol ar gyfer y dyddiadau hynny. **Cytunwyd** y dylai holl Staff y Comisiwn fod yn gallu cymryd gwyliau blynyddol yn ystod wythnos y Nadolig ac y byddai swyddfa'r Comisiwn ar gau ar y dyddiau hynny.

11.2 Cyflwynodd yr Ysgrifennydd bapur yn ymwneud â'r sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i arolwg Llangollen y Comisiwn. Daeth y sylwadau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Dr John Marek AC. Nododd y Comisiwn gais Dr Marek am refferendwm neu ymgynghoriad cyhoeddus. Er y teimlwyd efallai y byddai cyfarfod cyhoeddus yn ddefnyddiol roedd y Comisiwn yn ymwybodol mai dim ond tan ddiwedd mis Chwefror 2002 yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi rhoi estyniad i ddyddiad cau yr arolwg ac nad oedd hyn yn gadael llawer o amser i drefnu cyfarfod o'r fath. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn eu cyfarfod ym mis Rhagfyr. Yna byddai'n bosibl ystyried pa mor angenrheidiol fyddai cynnal cyfarfod ym mis Ionawr 2002, a, phe bai angen, gwneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol i ymestyn y dyddiad cau eto.

11.3 Mae'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol fel a ganlyn:

Dydd Mawrth 15 Ionawr 2002	10.00am
Dydd Llun 18 Chwefror 2002	10.00am
Dydd Mawrth 19 Mawrth 2002	10.00am